

ADRAN ADDYSG PRIFYSGOL RHYDYCHEN

Mawrth 2021

Crynodeb Gweithredol

Saesneg fel Iaith Ychwanegol: Hyfedredd mewn Saesneg a chyfradd cynnydd: Amrywiad disgybl, ysgol ac ALL

AWDURON

Yr Athro Steve Strand

Dr Ariel Lindorff



Hawlfraint

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad ar unrhyw ffurf (yn cynnwys ei lungopïo neu ei storio ar unrhyw gyfrwng trwy ddulliau electronig a p'un ai dros dro neu'n achlysurol neu beidio, i ryw ddefnydd arall o'r cyhoeddiad hwn) heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint. Dylid cyfeirio ceisiadau am ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint i atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn i'r cyhoeddwr.

Hawlfraint@ Prifysgol Rhydychen, Unbound Philanthropy a The Bell Educational Trust Limited (yn gweithredu fel The Bell Foundation)

Mae The Bell Educational Trust Limited yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant rhif 1048465, a sefydlwyd ar 5 Ebrill 1972, ac yn elusen wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau rhif 311585

The Bell Foundation
Red Cross Lane
Caergrawnt
CB2 0QU

www.bell-foundation.org.uk

Tîm Ymchwil

Mae Steve Strand yn Athro Addysg yn yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen.

Mae Steve Strand wedi bod yn Athro Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen ers Ionawr 2013. Cyn hynny, roedd yn Athro Addysg ym Mhrifysgol Warwick (2005-2012). Cyn hynny, roedd Steve yn Uwch Ymgynghorydd Asesu yn GL Assessment, cyhoeddwr profion ac asesiadau addysgol blaenllaw'r Deyrnas Unedig (1998-2005) ac yn Bennaeth Ymchwil a Gwerthuso yn Awdurdodau Addysg Lleol Wandsworth a Croydon (1988-1998). Yn y rolau hyn mae wedi bod yn gyfrifol am waith arloesol ar ddadansoddiadau 'gwerth ychwanegol' o berfformiad ysgolion. Mae gan Steve sgiliau arbennig o ran modelu ystadegol a dadansoddi setiau data arhydol graddfa fawr yn cynnwys y cyntaf a'r ail o Astudiaethau Arhydol o Bobl Ifanc yn Lloegr (LSYPE) a Chronfa Ddata Cenedlaethol y Disgyblion (NPD). Mae'n arwain yr hwb Dulliau Meintiol (QM) yn Adran Addysg Prifysgol Rhydychen. Mae'n awdur dros 100 o erthyglau mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid, penodau mewn llyfrau ac adroddiadau ymchwil. Mae wedi bod yn gynghorydd i'r Adran Addysg, yn gynghorydd arbenigol i ymchwiliad Pwyllgor Dethol Addysg Tŷ'r Cyffredin i gyflawniad Dosbarth Gweithiol Gwyn ac mae'n aelod o'r panel REF 2021 ar gyfer Addysg. Am ragor o fanylion gweler: <http://www.education.ox.ac.uk/people/steve-strand/>

Mae Ariel Lindorff yn Gymrawd Ymchwil yn yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen.

Mae ymchwil Ariel yn cynnwys dadansoddi setiau data eilaidd ar raddfa fawr yn defnyddio dulliau meintiol, yn ogystal ag ymagweddu dulliau cymysg tuag at ymchwilio i effeithiolrwydd addysgol a chydaddoldeb ar lefelau dosbarth, ysgol a system. Roedd ei DPhil, a gwblhawyd ym Mhrifysgol Rhydychen yn 2016, yn cynnwys astudiaeth dulliau cymysg o rwydweithiau ysgolion mewn ardal ysgolion yn yr Unol Daleithiau, gan ddefnyddio cyfuniad o ddadansoddiad aml-lefel o gyflawniad eilaidd a data gweinyddol a methodoleg astudiaeth achos. Cyn dod i Rydychen, sicrhodd radd Meistr mewn Mathemateg ac Ystadegau Cymhwysol gan Goleg Hunter, Prifysgol Dinas Efrog Newydd. Yn flaenorol fe weithiodd fel athro mathemateg uwchradd yn yr Unol Daleithiau am tua wyth mlynedd ac mae ganddi SAC yn y Deyrnas Unedig. Mae ei sgiliau ymchwil penodol yn cynnwys dadansoddiad eilaidd o setiau data graddfa mawr trawstoriadol ac arhydol, dulliau cymysg o ddylunio ymchwil ac ymagweddu penodol i'r pwnc a chyffredinol o arsylwi ymarfer yn y dosbarth. Mae Ariel yn arwain y cwrs MSc Addysg (Dylunio a Methodoleg Ymchwil) yn Adran Addysg Prifysgol Rhydychen, ac yn flaenorol wedi bod yn un o gynullyddion y gyfres seminarau Hyb Dulliau Meintiol (QM) yn yr un adran. Am ragor o fanylion gweler: <http://www.education.ox.ac.uk/people/ariel-lindorff/>

Ynghylch The Bell Foundation

Mae The Bell Foundation yn elusen sy'n ceisio trechu eithrio trwy addysg iaith gan weithio gyda phartneriaid ar arloesi, ymchwil, hyfforddiant ac ymyraethau ymarferol. Trwy greu a chymhwysu tystiolaeth, ein nod yw newid ymarfer, polisïau a systemau ar gyfer plant, oedolion a chymunedau yn y Deyrnas Unedig sydd dan anfantais oherwydd iaith.

Mae'r Sefydliad mewn pedwar maes allweddol:

- **Nod y Rhaglen Saesneg fel iaith Ychwanegol yw gwella canlyniadau addysgol plant gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol yn y Deyrnas Unedig er lles y plentyn unigol a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r Sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau ar draws y system addysg i ddarparu hyfforddiant ac adnoddau er mwyn meithrin gallu, datblygu a gwerthuso modelau arfer da, a darparu arweinyddiaeth agweddau.**
- **Mae'r Rhaglen ESOL yn rhaglen beilot newydd i wella deilliannau ar gyfer oedolion a phobl ifanc 16 i 25 oed, a gweithwyr mudol, yn cynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, sy'n defnyddio Saesneg fel ail iaith neu iaith ychwanegol. Bydd y rhaglen yn cynnwys buddsoddiad mewn prosiectau a phartneriaethau sy'n gwella deilliannau i ddysgwyr ESOL.**
- **Mae'r Rhaglen Cyfiawnder Troseddol yn ceisio trechu'r rhwystr iaith i gael mynediad at gyfiawnder ac adsefydlu ar gyfer unigolion mewn cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol ble mae Saesneg yn iaith Ychwanegol iddynt. Yn 2017, datblygodd y Sefydliad strategaeth hirdymor ar gyfer ei waith yn y sector, gyda ffocws ar ddioddefwyr a chyflawnwyr troseddau fel ei gilydd. Mae'r Sefydliad yn gweithio trwy ymyraethau mewn ymchwil, polisi, ymarfer a chefnogi gwasanaethau.**
- **Language for Results International yw darpariaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) newydd The Bell Foundation ar gyfer y sector ysgolion rhyngwladol. Mae wedi ei hysbysu gan dystiolaeth a'i ddatblygu gan arbenigwyr mewn addysg iaith i ddarparu cyfres gynhwysfawr o adloniant, adnoddau ac offer i ysgolion rhyngwladol.**

Ynghylch Unbound Philanthropy

Mae Unbound Philanthropy yn sefydliad rhoi grantiau preifat annibynnol sy'n gweithio i sicrhau bod mudwyr a ffoaduriaid yn cael eu trin â pharch ac yn ymgysylltu gyda'u cymunedau newydd. Rydym yn cefnogi ymagweddau pragmatig, arloesol ac ymatebol i fewnfudo ac integreiddio mewnfudwyr yn yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig.

1. Crynodeb Gweithredol

Casgliadau allweddol o'r pedwar adroddiad

Mae'r adroddiad hwn y pedwerydd mewn cyfres yn ymchwilio i'r berthynas rhwng Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY), Hyfedredd mewn Saesneg (PIE) a chyflawniad addysgol yn yr ysgol. Mae'r ymchwiliad hwn wedi ei ariannu gan The Bell Foundation ac Unbound Philanthropy. Yn yr adran hon, rydym yn rhoi crynodeb o'r adroddiadau blaenorol, cyn adrodd ar gasgliadau allweddol yr adroddiad cyfredol.

Strand, Malmberg a Hall (2015)

Defnyddiodd yr adroddiad Gronfa Data Genedlaethol y Disgyblion (NPD) yn Lloegr i ddadansoddi tueddiadau yn y nifer a dosbarthiad disgyblion gyda Saesneg fel iaith Ychwanegol, a'r berthynas rhwng Saesneg fel iaith Ychwanegol a chyflawniad addysgol yn 5, 7, 11 ac 16 oed yn defnyddio data cenedlaethol 2013 ar gyfer pob disgybl.

Y canlyniadau allweddol oedd:

- Fe wnaeth y boblogaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol yn ysgolion Lloegr fwy na dyblu o 7.6% yn 1997 i 16.2% yn 2013, gyda chyfanswm o ychydig dros un filiwn o ddisgyblion. Yn 2020 mae'r ffigur hyd yn oed yn uwch, nawr mae 1.62 miliwn o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol, sy'n cyfateb i ychydig dan un mewn pump (19.5%) o'r holl ddisgyblion 5-16 oed. Tra bod gan un chwarter ysgolion <1% o ddisgyblion wedi cofnodi fel Saesneg fel iaith Ychwanegol, mewn oddeutu 1 o bob 11 o ysgolion roedd disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cyfateb i >50% o'r gofrestr disgyblion, felly roedd angen yn grynodedig iawn mewn rhai ysgolion.
- Ar y cyfan, mae disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn dal i fyny gyda'u cyfoedion Saesneg iaith Gyntaf (FLE) o ran cyflawniad addysgol erbyn 16 oed. Yn 5 oed, dim ond 44% o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol oedd wedi cyflawni lefel dda o ddatblygiad o gymharu â 54% o ddisgyblion eraill. Erbyn 16 oed, roedd y bwlch yma wedi lleihau'n sylweddol gyda 58.3% o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cyflawni pump TGAU A*-C yn cynnwys Saesneg a mathemateg o gymharu â 60.9% o ddisgyblion eraill, a doedd yna ddim bwlch Saesneg fel iaith Ychwanegol o gwbl yn y sgôr pwyntiau TGAU 8 Gorau cyfartalog.
- Roedd yna amrywiaeth enfawr yn y canlyniadau addysgol a gyflawnwyd gan ddisgyblion wedi eu dosbarthu fel Saesneg fel iaith Ychwanegol. Yn ogystal â ffactorau risg cyffredinol i ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol a Saesneg iaith Gyntaf, fel Anghenion Addysgol Arbennig, amddifadedd economaidd-gymdeithasol teulu a chymdogaeth, rhyw a thymor geni, roedd yna ffactorau risg eraill ar gyfer cyflawniad isel oedd yn arbennig o gryf ymysg disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol: ieithoedd cyntaf penodol o fewn y grwpiau ethnig Du Affricanaidd a Gwyn Arall, absenoldeb sgôr cyrhaeddiad blaenorol o ddechrau'r cyfnod allweddol, a mudoedd disgybl rhwng ysgolion. Mae'r rhain i gyd yn ddirprwyon ar gyfer cyrraedd rhyngwladol o dramor.
- Yn allweddol, mae'r adroddiad yn casglu fod y diffiniad o Saesneg fel iaith Ychwanegol a ddefnyddir yn y NPD yn gyfyngedig oherwydd *nid yw'n rhoi unrhyw awgrym o hyfedredd disgybl yn Saesneg*¹. Felly, mae'r grŵp Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cynnwys (i) ymfudwyr newydd yn cyrraedd Lloegr sydd o bosibl heb unrhyw Saesneg o gwbl, ac a allai gael lefelau amrywiol o lythrennedd yn eu gwlad darddiad wreiddiol, a (ii) myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig ail neu drydydd cenedlaeth a allai fod wedi ei hamlygu i iaith ar wahân i Saesneg yn rhan o'u treftadaeth ddiwylliannol, ond sy'n defnyddio Saesneg fel iaith dydd i ddydd ac yn hollol rhugl ynddi. Mae'r adroddiad yn casglu fod yfedredd mewn Saesneg yn ffactor fawr yn dylanwadu ar gyflawniad addysgol a graddfa'r gefnogaeth fydd myfyriwr Saesneg fel iaith Ychwanegol angen, a diffyg Hyfedredd mewn Saesneg sydd wedi ei ddirprwyo gan y ffactorau risg a nodwyd yn y rhestr uchod.

1. "Dylid cofnodi iaith gyntaf ar wahân i Saesneg pan oedd plentyn wedi cael cysylltiad â'r iaith yn ystod ei ddatblygiad cynnar ac yn parhau i gael cysylltiad â'r iaith hon yn y cartref neu'r gymuned. Os oedd plentyn wedi ei amlygu i fwy nag un iaith (a allai gynnwys Saesneg) yn ystod datblygiad cynnar, dylid cofnodi'r iaith ar wahân i Saesneg, waeth beth yw hyfedredd y plentyn mewn Saesneg". (DCSF, 2006, p10).

Prif argymhelliad yr adroddiad oedd y dylai Adran Addysg Lloegr gyflwyno mesur o Hyfedredd mewn Saesneg (PIE) disgyblion er mwyn i ysgolion allu asesu hyn o fewn fframwaith cyffredin i nodi a delio ag anghenion disgyblion. Wedi ymgynghori fe gyflwynodd yr Adran Addysg fesur o'r fath, gan fabwysiadu'r mesur a ddefnyddiwyd mewn ysgolion yng Nghymru ers 2009², gyda'r casgliad cenedlaethol cyntaf o Hyfedredd mewn Saesneg ar gyfer pob disgybl Saesneg fel iaith Ychwanegol yn Lloegr yn Ionawr 2017³.

Strand a Hessel (2018)

Tra bod y data uchod yn cael ei gasglu gan yr Adran Addysg, nid oedd yn cael ei gynnwys yn yr NPD ac felly nid oedd ar gael ar gyfer ymchwil. Ni chyflawnwyd unrhyw ddadansoddiad o'r data gan yr Adran Addysg ychwaith, ar wahân i gynhyrchu un tabl unigol (Adran Addysg, 2017)⁴. Felly, fe weithiom gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol (ALL) ac ysgolion i gasglu data gan sampl mawr a chynrychiadol cenedlaethol o ddisgyblion. Roedd yr ymchwil a gasglwyd yn cofnodi data ar lefel disgybl yn ddiennw o ddata cyfrifiad ysgolion Ionawr 2017 ar gyfer dros 140,000 o ddisgyblion yn mynychu 1,569 o ysgolion mewn awdurdodau lleol ledled Lloegr. Roedd hefyd yn casglu a pharu'r data yma i ganlyniadau asesiad cenedlaethol y disgyblion yn 5, 7, 11 ac 16 oed. Y prif ganlyniadau oedd:

- Roedd disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn amrywio'n helaeth o ran graddfa eu Hyfedredd mewn Saesneg. Yng nghyd-destun ysgolion prif ffrwd yn Lloegr, nid oedd hyn yn arsylwad dibwys. Mae dysgu yn cael ei gyflawni bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng Saesneg, boed hynny'n destunau, deunyddiau fideo neu sain, neu mewn trafodaethau dosbarth. Mae grŵp o ddisgyblion sydd dim ond yn gallu cael mynediad i'r wybodaeth hon i raddau cyfyngedig hefyd yn llai tebygol o gyflawni i'w llawn potensial.
- Yr elfen bwysicaf o ran graddfa hyfedredd y disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol mewn Saesneg oedd eu hoedran, yn hytrach nag ethnigrwydd, rhyw neu gymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim. Ar ddiwedd y dosbarth Derbyn, mae bron i dri chwarter (71%) disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn caffael Hyfedredd mewn Saesneg (wedi ei raddio fel Newydd i Saesneg, Caffael Cynnar neu Ddatblygu Cymhwyster). Ar ddiwedd CA1, mae bron i hanner (49%) disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn caffael hyfedredd. Ar ddiwedd CA2, mae hyn yn gostwng i dan chwarter (23%) ac erbyn CA4 dim ond un mewn chwech (15%). Mewn geiriau eraill, erbyn CA4 mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol (85%) yn Gymwys neu'n Rhugl yn y Saesneg, o gymharu â 29% o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol yn y dosbarth Derbyn. Felly, mae cefnogaeth iaith yn arbennig o bwysig yn ystod blynyddoedd cynnar addysg gynradd er mwyn caniatáu i ddisgyblion gael mynediad i'r cwricwlwm cyn gynted â phosibl.
- Mewn blynyddoedd diweddarach, efallai y bydd angen cefnogaeth i lai o ddisgyblion, ond mae'n dal ei angen, yn arbennig ar gyfer disgyblion sy'n newydd i'r wlad. Os mai dyhead y system ysgolion yw darparu mynediad llawn i'r cwricwlwm (Saesneg) ar gyfer pob disgybl, bydd angen cefnogaeth ieithyddol o hyd ar gyfer un ym mhob chwe disgybl Saesneg fel iaith Ychwanegol yn ystod CA4, ble barnwyd fod 15% yn llai na 'Chymwys' o ran hyfedredd.
- Ar draws pob oed 5-16 a phob pwnc, roedd disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol gyda gwahanol lefelau o Hyfedredd mewn Saesneg yn amrywio'n fawr yn eu cyflawniad. Yn wir, mae PIE yn ganolog i ddeall cyflawniad a lefelau angen ymysg disgyblion sydd â Saesneg fel iaith Ychwanegol. Gallai Hyfedredd mewn Saesneg esbonio 22% o'r amrywiad yng nghyflawniad disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol, o gymharu â'r 3-4% arferol y gellid esbonio'n ystadegol yn defnyddio rhyw, statws prydau ysgol am ddim ac ethnigrwydd.

2. Graddfa pum lefel Hyfedredd mewn Saesneg (PIE): A = "Newydd i Saesneg", B = "Caffael Cynnar", C = "Datblygu Cymhwyster", D = "Cymwys", E = "Rhugl". Gweler Atodiad A am ddisgrifiad manwl o bob categori.

3. Defnyddiwyd y mesur PIE yng nghyfrifiadau ysgolion Ionawr 2017 a 2018, ond fe derfynwyd casglu PIE gan yr Adran Addysg wedi hynny.

4. Mewn gwirionedd, ni chyhoeddodd yr Adran Addysg unrhyw ddadansoddiad o'r data tan Mawrth 2020 (Adran Addysg, 2020), dros dair blynedd wedi casglu.

- Tra bod disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn y cyfnod Newydd i Saesneg neu Gaffael Cynnar wedi sgorio'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, roedd y rhai oedd yn Datblygu Cymhwyster yn agos iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol a'r rhai oedd yn Gymwys neu'n Rhugl wedi sgorio'n sylweddol uwch na siaradwyr uniaith Saesneg. Felly, nid yw bod yn ddwyieithog yn rhwystr i ddysgu. Beth all fod yn rhwystr i gyflawniad yw diffyg hyfedredd yn yr iaith cyfarwyddyd yn yr ysgol. Mae angen cefnogi disgyblion fel y gallant gaffael yr hyfedredd maent ei angen i lwyddo.

Yn fuan wedi cyhoeddi'r adroddiad, cyhoeddodd yr Adran Addysg na fyddai angen cofnodi PIE mwyach wedi Ionawr 2018. Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r Adran Addysg adfer casglu PIE yn y cyfrifiad ysgolion, a chynnwys y data ar PIE yn yr NPD fel ei fod ar gael ar gyfer dibenion ymchwil. Yn ogystal, er nad oedd yr Adran Addysg bellach yn gofyn i ysgolion asesu Hyfedredd mewn Saesneg plentyn, roedd yr adroddiad yn annog ysgolion yn gryf i barhau i wneud hynny er mwyn nodi anghenion a thargedu cefnogaeth. Cafodd y safbwynt yma ei gefnogi'n gryf gan y Gymdeithas Genedlaethol dros Ddatblygiad Iaith yn y Cwricwlwm (NALDIC), y gymdeithas genedlaethol ar gyfer y pwnc Saesneg fel Iaith Ychwanegol⁵, a gan drefnwyr fel The Bell Foundation, y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) a'r Sefydliad Polisi Addysg (EPI).

Strand a Lindorff (2020)

Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddau gwestiwn canolog i athrawon, datblygwyr cwricwlwm, gweinyddwyr a swyddogion llywodraeth fel ei gilydd: faint o amser mae'n ei gymryd i ddisgyblion Newydd i Saesneg gaffael Hyfedredd mewn Saesneg, ac am ba hyd mae disgyblion angen cefnogaeth ieithyddol arbennig? Adroddodd yr astudiaeth hon ar 5,453 o ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol a ymunodd â dosbarth Derbyn yn 4/5 oed yng Nghymru rhwng 2009 a 2011, gan eu holrhain dros eu chwe blynedd ddilynol yn yr ysgol gynradd. Pob mis Ionawr, roedd Hyfedredd Saesneg (PIE) y disgyblion yn cael ei gofnodi ar raddfa pum pwynt, yn amrywio o A (Newydd i'r Saesneg) i B (Caffaeliad Cynnar), C (Datblygu Cymhwysedd) i D (Cymwys) ac E (Rhugl). Gofynnem faint o amser mae'n ei gymryd i fwyafrif (h.y. o leiaf 50%) o'r disgyblion wneud unrhyw drosiant penodol o un lefel i'r llall?

- Ymysg disgyblion a gyrhaeddodd y dosbarth Derbyn ar lefel A (Newydd i Saesneg) roedd dros hanner (59%) wedi pontio i lefel B (Caffael Cynnar) erbyn Bl2, gan gymryd 2.4 mlynedd ar gyfartaledd (SD=1.4); ac roedd dros hanner (51%) wedi pontio i lefel C (Datblygu Cymhwyster) erbyn Bl4, gan gymryd 3.7 mlynedd ar gyfartaledd (SD=1.6). Fodd bynnag, dim ond un traean (31%) oedd wedi pontio i lefel D/E (Cymwys/Rhugl) erbyn diwedd Bl6, yn cymryd cyfartaledd o 4.6 o flynyddoedd.
- Ar y cyfan, erbyn diwedd Bl6, roedd bron i bob un (96%) wedi pontio i B (Caffael Cynnar), a dros dri chwarter (78%) wedi pontio i C (Datblygu Cymhwyster) ond dim ond tua un traean (31%) wedi pontio i D/E (Cymwys/Rhugl). Mae hyn yn dynodi y bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau dosbarth Derbyn yn Newydd i Saesneg yn cymryd mwy na 6 blynedd i gael eu graddio fel Cymwys/Rhugl. Mae hyn yn gyffredinol yn gymaradwy i ymchwil diweddar a methodolegol gryf o'r Unol Daleithiau sy'n amcangyfrif bod angen 4-8 mlynedd i gaffael hyfedredd Saesneg academaidd.
- Fe wnaethom hefyd ddilyn 1,839 o ddisgyblion eraill am o leiaf chwe blynedd arall a gofnodwyd i fod yn Newydd i Saesneg wnaeth ymuno â'u hysgol yn B1 i B5 yn hytrach na gyda chohort llawn yn y Derbyn. Roedd yr amcangyfrifon ar gyfer y disgyblion hyn yn cyfateb yn sylweddol â'r rhai a adroddwyd ar gyfer disgyblion yn cychwyn yn y Derbyn. Tra gallai disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol sy'n cyrraedd yr ysgol mewn grwpiau blynyddoedd

5. <https://naldic.org.uk/about-naldic/activism/position-statements/dfe-proficiency-data/>

diweddarach fod yn fwy tebygol i gael lefelau is o PIE wrth gyrraedd na'u cyfoedion grŵp oedran, ac i gael lefelau is o gyrhaeddiad ar ddiwedd y profion cyfnod allweddol (e.e. Adran Addysg, 2019), ar gyfartaledd, dylid disgwyl iddynt sicrhau'r un gyfradd o gynnydd mewn dysgu Saesneg a disgyblion yn ymuno yn Derbyn, os cânt ddigon o gefnogaeth.

- Mae gan y canlyniadau hyn oblygiadau arwyddocaol ar gyfer y fformiwlâu ariannu disgyblion cenedlaethol. Er enghraifft, yn Lloegr ar hyn o bryd mae'r fformiwlâ genedlaethol yn darparu cyllid wedi'i dargedu i ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol am gyfnod o dair blynedd wedi iddynt ymuno â'r ysgol. Efallai fod hyn yn briodol ar gyfer disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol fel Newydd i Saesneg i sicrhau hyfedredd mewn cyd-destunau cymdeithasol, ond mae'n llai na hanner yr isafswm amser a awgrymir gan y data cyfredol ar gyfer sicrhau hyfedredd academaidd.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn delio â nifer o gasgliadau pellach yn cynnwys materion o ran cysondeb dehongli'r dynodiad Cymwys/Rhugl, ffactorau demograffig sy'n gysylltiedig gyda chynnydd a'r berthynas rhwng PIE a chyflawniad mewn Saesneg a mathemateg yn 7, 11, 14 ac 16 oed.

Yr adroddiad cyfredol – Canfyddiadau allweddol

Gellir ystyried yr adroddiad cyfredol i fod yn estyniad i'r adroddiad blaenorol. Cyflwynodd Strand a Lindorff (2020) ddadansoddiadau disgrifiadol trawstoriadol ac arhydol o PIE disgyblion a'r cynnydd trwy lefelau o PIE. Buont hefyd yn cymryd golwg gychwynnol, ddisgrifiadol ar sut oedd PIE, a'r amser a gymerwyd i symud trwy lefelau PIE, yn gysylltiedig i gyflawniad. Defnyddia'r adroddiad cyfredol yr un set o ddata Cymreig ac mae'n adeiladu ar yr hanesion disgrifiadol hynny i ddadansoddi PIE ac amser i ddilyniant, yn ogystal â'u cysylltiadau gyda chyflawniad, mewn mwy o fanylder yn defnyddio modelu ystadegol.

Canfyddiadau allweddol yr adroddiad cyfredol yw:

- Mae ysgolion ac ALLau yn amrywio'n sylweddol yn eu hasesiad o PIE ar amser cyfartalog a gymer i ddisgyblion symud rhwng lefelau PIE. Mae'r farn o PIE, a'r amser a gymer i symud ymlaen ar draws lefelau, wedi ei ddylanwadu'n gryf gan yr unigolyn sy'n gwneud yr asesiad, o gymharu â deilliannau eraill a asesir gan athrawon (fel cyflawniad addysgol CA1 a CA2). Y goblygiadau ar gyfer polisi yw bod yn rhaid i feini prawf a diffiniadau hyfedredd fod yn glir a dylid cytuno arnynt yn genedlaethol, rhaid bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar sut i asesu hyfedredd fod ar gael, a rhaid cael gweithdrefnau cymedroli cadarn er mwyn cefnogi defnydd cyson a dibynadwy o raddfa PIE gydag asesiad athro ar lefel genedlaethol. Ble mae meini prawf a gweithdrefnau o'r fath yn gryfach, fel gydag asesiadau athro o gyflawniad yn ystod CA1 a CA2, mae'r amrywiad rhwng ALLau ac ysgolion yn sylweddol is. Yn benodol, mae dehongliad cyson ar draws ALLau, ac arweinyddiaeth a chyfeiriad clir ar gyfer eu hysgolion, yn angenrheidiol i sicrhau asesiad dibynadwy o PIE disgyblion.
- Mae cyswllt cryf rhwng hyfedredd mewn Saesneg a lefelau cyflawniad addysgol yn ystod CA1 a CA2. Mae disgyblion SIY sy'n caffael hyfedredd (lefelau A-C) ar gyfartaledd yn sgorio'n sylweddol is a'u cyfoedion Saesneg/Cymraeg, tra bod disgyblion SIY Cymwys neu Rugl (D/E) ar gyfartaledd yn sgorio'n sylweddol uwch na siaradwyr Cymraeg/Saesneg, mewn Saesneg a mathemateg yn 7 oed ac yn 11 oed. Mae hyn yn ail-ategu'r casgliadau o'n hymchwil cynharach nad yw SIY yn unig yn ddigon craff fel offeryn i ddeall anghenion dysgu iaith disgyblion, a bod asesiad o Hyfedredd mewn Saesneg disgybl (ble mae Saesneg yn iaith hyfforddi'r ysgol) yn gwbl allweddol (e.e. Strand a Demie, 2005; Strand a Hessel, 2018).

- **Ar gyfartaledd mae disgyblion o darddiad ethnig Gwyn Arall yn cymryd cyfnod sylweddol hirach i symud ymlaen trwy lefelau hyfedredd, a nhw sydd â'r cyflawniad addysgol isaf yn ystod CA1 a CA2 o'r holl grwpiau lleiafrifoedd ethnig.** Pan ystyrir clystyru, Gwyn Arall yw'r unig grŵp lleiafrifoedd ethnig sydd ar gyfartaledd yn cymryd cyfnod sylweddol hirach i symud ymlaen trwy lefelau hyfedredd. Nhw hefyd yw'r grŵp ethnig gyda'r cyflawniad addysgol isaf yn ystod CA1 a CA2 yn ein dadansoddiadau. Mae gan y canlyniadau hyn oblygiadau pwysig ar gyfer targedu cymorth, o ystyried mai Gwyn Arall yw'r grŵp lleiafrif ethnig mwyaf yng Nghymru, yn cyfateb i 3% o holl boblogaeth disgyblion a dros un chwarter o'r holl ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig (Llywodraeth Cymru, 2020).
- **Fe ddefnyddiom fodolau lefelau lluosog i reoli ffactorau lefel disgyblion a lefel ysgol. Wedi rheoli cefndir disgyblion, nid oedd unrhyw gyswllt rhwng y gyfran o ddisgyblion mewn ysgol oedd yn caffael Hyfedredd mewn Saesneg (PIE lefelau A-C), ac felly angen cefnogaeth ieithyddol, a lefelau cyflawniad ar gyfer disgyblion eraill yn yr ysgol. Roedd hyn hefyd yn wir pan edrychom ar yr effaith ar ddim ond disgyblion ble roedd eu hiaith gyntaf yn Saesneg/ Cymraeg.** Fodd bynnag, nodwn fod llawer o'n data wedi ei gasglu yn ystod y cyfnod hyd at Ebrill 2015, pan roedd y nifer o ddisgyblion yn caffael Hyfedredd mewn Saesneg wedi ei gynnwys yn y cyllid fformiwla ar gyfer ysgolion yng Nghymru, a'r cyllid wedi ei glustnodi. Gan nad yw hyn bellach yn wir, gallai cysylltiadau hanesyddol gyda chyflawniad hanesyddol newid, a bydd angen eu monitro'n ofalus yn y blynyddoedd i ddod.
- **Gwelir cyswllt negyddol arwyddocaol o ran cyflawniad addysgol yn y rhai sy'n mynychu ysgol gyda chyfran uchel o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, yn fwy nag effeithiau amddifadedd unigol.** Er nad yw hyn yn ymwneud yn benodol â disgyblion SIY, roedd yn effaith gref ac felly fe'i hamlygir yma. Mae gan hyn oblygiadau o ran polisiau, fel y premiwm disgybl, sy'n neilltuo cyllid yn gyfan gwbl ar sail fesul disgybl sefydlog, heb ystyried y gyfran berthnasol o ddisgyblion o'r fath yn mynychu'r ysgol. Awgryma ein canlyniadau y dylid hefyd dyfarnu "premiwm ysgol" i ysgolion gyda'r cyfraddau uchaf o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim er mwyn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith crynodiadau uchel o ddisgyblion difreintiedig ar gyflawniad.
- **Mae ysgolion uwchradd yn dueddol o ail godio rhai disgyblion SIY, yn arbennig felly'r rhai sy'n gwbl rhugl yn y Saesneg, fel uniaith Cymraeg/Saesneg, sy'n awgrymu bod rhywfaint o gyfuno rhwng y term "SIY" ac "angen cefnogaeth ieithyddol".** Gwyddom o'r adroddiad blaenorol (Strand a Lindorff, 2020, t21) fod y gyfran o ddisgyblion a gofnodir fel SIY yn gostwng rhwng Bl6 (6.9%) a Bl7 (6.2%). Yn Lloegr, mae'r cwmp hwn hyd yn oed yn fwy amlwg (Adran Addysg, 2020)⁶. Dengys ein canlyniadau bod y tebygolrwydd o gofnodi fel uniaith Cymraeg/Saesneg yn ystod Bl7 yn arbennig o amlwg ar gyfer disgyblion Rhugl (24%) o gymharu â dim ond 4% o ddisgyblion ar lefel A/B. Yn dechnegol, fe ddiffinnir statws SIY yn ôl amlygiad i iaith ar wahân i (neu yn ychwanegol i) Saesneg yn ystod y blynyddoedd cynnar, ac felly ni ddylai hyn newid gydag amser. Awgryma'r canlyniadau nad yw cyfuno "SIY" gydag "angen cefnogaeth ieithyddol" yn anghyffredin. Mae hyn yn rheswm pellach dros bwysigrwydd cadw cofnod o Hyfedredd mewn Saesneg yn ogystal â lluman SIY, gan ei fod yn pwysleisio eu bod yn ddau ddimensiwn annibynnol.

6. Nid yw'r Adran Addysg (2020) yn adrodd ar y ganran o'r cohort a gofnodir fel WAL ym mhob blwyddyn, ond mae Strand et. al. (2015) yn cofnodi cwmp o 17.5% wedi eu cofnodi fel SIY yn Bl6 i 14.5% wedi eu cofnodi fel SIY yn Bl7.

Manylion pellach ar yr adroddiad cyfredol

Cwestiynau ymchwil

Thema gyffredinol yn yr adroddiad hwn yw ymchwilio pa mor gadarn yw PIE fel mesur o hyfedredd Saesneg disgybl unigol, a faint y gallai amrywiad o ran ysgol neu ALL ddylanwadu ar hyn yn ystod y broses asesu.

Gyda'r nod hon, rydym yn nodi nifer o is-gwestiynau mwy penodol:

- 1) Faint o amrywiad sydd rhwng ysgolion a rhwng ALLau yn yr amser a gymer i ddisgyblion symud rhwng lefelau PIE?
 - Sut mae'r amrywiad hwn yn cymharu gyda'r amrywiad cyffredinol rhwng ysgolion a rhwng ALLau o ran cyrhaeddiad CA1 a CA2 disgyblion? A yw'n fwy, neu'n llai?
 - Faint o amrywiad sydd yna rhwng ysgolion a rhwng ALLau o ran os yw disgyblion yn symud ymlaen i Gymwys neu uwch erbyn diwedd yr ysgol gynradd?
- 2) I ba raddau mae nodweddion disgyblion (rhyw, ethnigrwydd, hawl i brydau ysgol am ddim ac anghenion addysgol arbennig) yn gysylltiedig gyda'r amser a gymer i ddisgyblion symud rhwng lefel PIE?
- 3) Sut mae cyrhaeddiad CA1 a CA2 yn gysylltiedig i statws SIY a lefelau PIE disgyblion?
 - A oes cyswllt atodol gyda deilliannau yng nghyfansoddiad y grŵp cyfoedion ysgol, yn benodol y gyfran o ddisgyblion sy'n caffael Hyfedredd mewn Saesneg (Datblygu Cymhwyster neu is) yn ychwanegol i amrywiolion lefelau disgyblion?
 - A oes gan siaradwr Saesneg brodorol gyflawniad addysgol is neu a yw eu cynnydd yn arafach mewn ysgolion gyda chyfran uchel o ddisgyblion yn Datblygu Cymhwyster Saesneg? Mae rhai awduron wedi damcaniaethu y gallai hyn ddigwydd os yw sylw athrawon wedi ei ffocysu'n angenrheidiol ar ddisgyblion gydag anghenion dysgu ieithyddol (Green, 2010; Cho, 2012)?
- 4) Beth sy'n digwydd i lefelau PIE disgyblion wrth bontio o'r ysgol gynradd i uwchradd? Beth allai hyn ei ddweud wrthym am gysondeb wrth gofnodi PIE?

Setiau data

Fel y nodwyd uchod, defnyddiwyd yr un data ar gyfer dadansoddiadau yn yr adroddiad hwn ag ar gyfer yr adroddiad dros dro (Strand a Lindorff, 2020), o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r data yma yn cynnwys gwybodaeth ar lefelau PIE disgyblion unigol fel y'i cofnodwyd pob Ionawr ers 2009, yn ogystal â gwybodaeth ar eu rhyw, grŵp ethnig, hawl i brydau ysgol am ddim, ac anghenion addysgol arbennig (AAA) a nodwyd, a'u cyflawniad addysgol yn 7, 11, 14 ac 16 oed. Roedd y set data gwreiddiol yn cynnwys yr holl gofnodion ar gyfer disgyblion yng Nghymru rhwng cyfrifiadau ysgolion 2009 ac Ionawr 2017, yn gynhwysol, er bod ein dadansoddiadau yn eithrio ysgolion arbennig ble nad oes gofyniad i gofnodi lefelau PIE disgyblion. Yn yr adroddiad hwn, fe ganolbwyntiom ar y blynyddoedd cynradd (Derbyn hyd at B16), ond gan edrych hefyd ar y pontio o ysgol gynradd i uwchradd.

Set data ar gyfer dadansoddiad amser i gynnydd

O PIE blynyddol disgyblion, fe gasglom amrywiolion yn cynrychioli “amser hyd at gynnydd” o bob lefel o PIE i'r lefelau nesaf neu uchaf (h.y. nifer o flynyddoedd o un lefel o PIE i un arall neu uwch, wedi ei gyfrifo yn yr ysgol gynradd yn unig gan mai ar y cam hwn y canolbwyntiodd ein dadansoddiad). Buom hefyd yn dadansoddi os oedd disgyblion wedi cyrraedd trothwy PIE penodol neu beidio (e.e. Cymwys neu uwch) erbyn diwedd yr ysgol gynradd. Roedd yr amrywiolyn amser i gynnydd yma yn defnyddio'r gwerthoedd 1 i 7, i gynrychioli “1 flwyddyn” hyd at “mwy na 6 blynedd”. Defnyddiom yr un strategaeth ag yn yr adroddiad dros dro i ddethol y cohortau o ddisgyblion a ddechreuodd yn Derbyn yn 2009, 2010 neu 2011 a'u dilyn hyd at Bl6 yn 2015, 2016 neu 2017 yn y drefn honno. Fe wnaethom hidlo ar gyfer disgyblion oedd â gwybodaeth ddilys ar gyfer pob blwyddyn o Dderbyn i Bl6 ac a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg yn unig. Ar gyfer modelau aml-lefel, fe wnaethom hefyd hepgor ysgolion gyda llai na thri o ddisgyblion yn y grŵp perthnasol (e.e. y rhai yn cychwyn Derbyn gyda PIE lefel A).

Set ddata ar gyfer dadansoddiad cyflawniad addysgol

Ar gyfer y dadansoddiad o berthnasau gyda chyflawniad CA1 a CA2, fe gynhwysom ddisgyblion oedd yn Bl2 a Bl6 a hidlo ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn unig⁷. Fe gyfrifiannom gyfrannau ysgolion disgyblion gyda lefelau PIE is (o A i c) a chyfrannau ysgolion disgyblion oedd â hawl i brydau ysgol am ddim. Yn ein dadansoddiadau, mae'r rhain wedi eu gweithredoli o ran cwintelau ysgolion, o'r gyfran isaf i'r uchaf. I sicrhau bod amrywiolion cyfansoddiadol ysgolion (cyfran sy'n caffael hyfedredd (lefelau PIE A-C) a chyfran sydd â hawl i brydau ysgol am ddim) wedi eu cyfrifiannu'n ddibynnol, fe gynhwysom werth tair blynedd o ddata (2014-16) yn hytrach na chanolbwyntio ar ddim ond un flwyddyn, ac eithrio ysgolion gyda llai na 30 o ddisgyblion cofrestredig ar draws y blynyddoedd hyn. Ar gyfer dadansoddiadau CA2, fe wnaethom hepgor unrhyw gofnodion ble nad oedd cyrhaeddiad CA1 ar gael hefyd. Rhoddodd hyn gyfanswm i ni o dros 73,000 o gofnodion disgyblion ar gyfer y dadansoddiadau CA1 a tua 62,000 ar gyfer y dadansoddiadau CA2.

Set data ar gyfer dadansoddiad pontio cynradd-uwchradd

Fe wnaethom baru cofnodion disgyblion Bl6 yn Ionawr 2009 i gofnodion Bl7 yr un disgyblion yn Ionawr 2010, a gwneud yr un peth eto ar gyfer 2010-2011 hyd at 2016-2017. Yna fe wnaethom hidlo ar gyfer disgyblion gyda gwybodaeth lawn ar PIE yn y ddau grŵp blwyddyn, ac ar gyfer y rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Rhoddodd hyn sampl dadansoddol i ni o 188,010 o gofnodion disgyblion, wedi ei fras rannu'n gyfartal ar draws wyth mlynedd o 2009-10 hyd 2016-17.

Canlyniadau

Amrywiad ysgol ac ALL o ran amser i gynnydd PIE

Roedd yna amrywiad rhwng ALLau yn yr amser a gymerai i ddisgyblion symud trwy lefelau PIE (7%-15% yn ddibynnol ar y pontio penodol), er mai dim ond yn yr amser i bontio o lefel A i B oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Fodd bynnag, roedd nifer fechan o ALLau yn allanolynnau arwyddocaol o ran amserau pontio ar sawl cam. Roedd yna amrywiad arwyddocaol iawn hefyd rhwng ALLau (13%) yn y gyfran o ddisgyblion ar lefelau PIE A-C wrth ymuno â'r dosbarth Derbyn a bontiodd i Cymwys erbyn diwedd Bl6. Mae maint yr amrywiad rhwng ALLau yn sylweddol uwch na'r hyn a welir ar gyfer cyflawniad disgyblion, fel y'i mesurir gan asesiad athro o Saesneg a Mathemateg ar ddiwedd CA1 a CA2, ble roedd gwahaniaethau rhwng ALLau yn atebol am <1% o'r amrywiad.

7. Mae hyn oherwydd bod na fyddai Hyfedredd mewn Saesneg yn bryder difrifol mewn ysgol ble byddai Cymraeg yn iaith hyfforddi, gan mai Cymraeg fyddai'r iaith fyddai angen i ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol ennill hyfedredd ynddi er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r gyfran o ddisgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn isel iawn, 2.5% yn y cynradd a 0.3% yn uwchradd.

Awgryma'r canlyniadau bod yna wahaniaethau arwyddocaol rhwng ALLau yn eu dull o asesu PIE. Mae Caerdydd a Chasnewydd, er enghraifft, yn cynnwys 60% o'r holl ddisgyblion SIY yng Nghymru, ac yn gyfagos yn ddaearyddol, ac eto mae eu dulliau o asesu PIE yn ymddangos i weld yn wahanol iawn. Er enghraifft, yng Nghasnewydd dim ond 7% o ddisgyblion SIY mewn dosbarthiadau Derbyn sydd wedi eu graddio i fod yn rhugl, o gymharu â 37% yng Nghaerdydd. Mae amrywiaethau o'r fath yn rhy fawr i fod ar hap, ac mae'n debygol eu bod yn adlewyrchu gwahaniaethau polisi yn y dulliau o gofnodi PIE mewn gwahanol ALLau (fel y disgrifir ymhellach yn Adran 3).

Mae'r mater hefyd wedi ei adlewyrchu gydag amrywiad sylweddol ac ystadegol arwyddocaol iawn rhwng ysgolion, yn amrywio o 23-65% yn ddibynnol ar y pontio PIE penodol. Roedd cryn amrywiad ysgolion hefyd (21%) yn y gyfran o ddisgyblion sy'n mynd ymlaen i Gymwys neu uwch erbyn diwedd Bl6. Unwaith eto, roedd hyn dipyn uwch na'r amrywiad rhwng ysgolion mewn cyflawniad disgyblion yn seiliedig ar lefelau asesiad athro CA1 a CA2 (6-8%).

Fe ymddengys bod yr unigolyn sy'n cyflawni'r asesiad o PIE yn ddylanwad sylweddol ar yr amrywiad mewn amser i gynnydd. Y goblygiad o ran polisi yw bod cytuno ar feini prawf a diffiniadau ar gyfer hyfedredd, eglurder o ran sut dylid ei asesu, hyfforddiant o ansawdd uchel ar y broses asesu, a bodolaeth gweithdrefnau cymedroli cadarn yn allweddol i gysondeb er mwyn gallu dibynnu ar ddefnyddio graddfa PIE a asesir gan athrawon. Ble mae meini prawf a gweithdrefnau o'r fath yn bodoli, fel gydag asesiadau athro o gyflawniad ar ddiwedd CA1 a CA2, mae'r amrywiad rhwng ALLau ac ysgolion yn sylweddol is. Rydym yn casglu bod dehongli cyson ar draws ALLau, ac arweiniad a chyfeiriad clir ar gyfer eu hysgolion, yn angenrheidiol i sicrhau asesiad cyson a dibynadwy o PIE disgyblion.

Cyswllt rhwng amser i gynnydd PIE a nodweddion disgyblion

Awgrymai canlyniadau o fodolau atchweliad llinol sylfaenol, yn canolbwyntio ar gynnydd o Lefel A yn Derbyn i lefelau PIE uwch erbyn diwedd yr ysgol gynradd nad oedd y rhan fwyaf o nodweddion disgyblion yn rhoi rhagnodiad cryf o amser i gynnydd. Nid oedd gan ddisgyblion Pacistanaidd amserau cynnydd hirach na'r categori cyfeirio Unrhyw Grŵp Ethnig Arall (oedd yn cynnwys Gwyn Prydeinig) ond roedd hyn o leiaf yn rhannol oherwydd y crynodiad uchel o ddisgyblion Pacistanaidd mewn ALLau (Casnewydd a Chaerdydd) ble roedd amserau cynnydd yn hirach yn gyffredinol. Roedd bechgyn, disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion a nodwyd i fod ag AAA yn dueddol o cymryd cyfnod sylweddol hirach i gynyddu trwy lefelau PIE, unrhyw beth o 3-6 mis yn ddibynnol ar y trosiant penodol.

Wedi ystyried y clystyru o ddisgyblion mewn ysgolion yn defnyddio modelu atchwel aml-lefel, dim ond y Grŵp ethnig arall Gwyn oedd yn gysylltiedig gydag amserau cynnydd hirach o gymharu ag Unrhyw Grŵp Ethnig Arall, o tua 3-7 mis yn ddibynnol ar y trosiant penodol. Roedd gan fechgyn amserau cynnydd hirach na merched, o 2-5 mis yn ddibynnol ar y pontio penodol. Roedd y cysylltiadau rhwng AAA ac amser i gynnydd yn dal yn debyg, ond nid oedd effaith hawl i brydau ysgol am ddim yn ystadegol arwyddocaol mwyach. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn dueddol i fod wedi eu clystyru o fewn ysgolion ac ALLau gydag amserau cynnydd dipyn hirach ar gyfer pob disgybl.

Perthynas rhwng PIE disgybl, a chyfrannau ysgolion o ddisgyblion gyda lefelau PIE isel, a chyflawniad addysgol

Roedd cyswllt arwyddocaol rhwng PIE disgyblion unigol a chyflawniad Saesneg a mathemateg yn ystod CA1 a CA2. Roedd gan ddisgyblion SIY yn caffael hyfedredd (lefelau A-C) ar gyfartaledd yn cyflawni'n / yn cael cyflawniad sylweddol is na disgyblion oedd â Cymraeg/Saesneg fel iaith gyntaf, tra bod gan ddisgyblion SIY oedd yn Gymwys/Rhugl (lefelau D-E) ar gyfartaledd gyflawniad arwyddocaol uwch na'r rhai yr gyda Cymraeg/Saesneg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn ail-ategu'r canfyddiadau o'n gwaith cynharach (Strand a Demie, 2005; Strand a Hessel, 2018) a'r Adran Addysg (2020).

Roedd nodweddion eraill disgyblion yn esbonio cyfrannau sylweddol o'r amrywiad mewn cyflawniad CA1 a CA2 mewn Saesneg a mathemateg. Ar gyfartaledd roedd gan ddisgyblion o ethnigrwydd Indiaidd ac Asiaidd Arall/Cymysg Gwyn ac Asiaidd gyflawniad uwch, tra bod gan ddisgyblion o grwpiau Gwyn Arall gyflawniad is na'r grŵp cyfeirio Unrhyw Arall (oedd yn cynnwys Gwyn Prydeinig). Roedd bod yn fachgen, gyda hawl i brydau ysgol am ddim, ac wedi ei nodi i fod ag AAA yn gysylltiedig gyda chyflawniad is yn ystod CA1 a CA2.

Ni chanfu ein hymchwil flaenorol (Strand et al., 2015) unrhyw dystiolaeth bod gan y gyfran o ddisgyblion gyda SIY mewn ysgol unrhyw gyswllt, cadarnhaol na negyddol, gyda chyflawniad disgybl, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol ar siaradwyr Saesneg brodorol, wedi mesurau rheoli ar gyfer nodweddion lefel disgyblion. Foddbynnag, nid oedd mesur o Hyfedredd mewn Saesneg ar gael yn yr astudiaeth honno. Gellid dadlau felly nad oedd modd profi'r gosodiad penodol y gallai cyfran uchel o ddisgyblion *heb hyfedredd mewn Saesneg* gael cyswllt negyddol ar gyflawniad disgyblion eraill yn yr ysgol. Yn yr astudiaeth hon, gallem werthuso'r cwestiwn yma yn defnyddio'r gyfran o ddisgyblion yn yr ysgol yn caffael Hyfedredd mewn Saesneg (PIE lefelau A-C) ac nid oedd yn gysylltiedig gydag unrhyw rai o'r deilliannau cyflawniad addysgol, ar gyfer disgyblion eraill yn yr ysgol, yn ystod CA1 na CA2, wedi mesurau rheoli ar gyfer nodweddion lefel disgyblion. Fe brofom hefyd ar gyfer unrhyw ryngweithio rhwng PIE disgyblion unigol a'r gyfran ysgol o ddisgyblion gyda PIE A-C, ac nid oedd unrhyw effaith sylweddol. Felly, nid oes tystiolaeth i ddangos bod mynychu ysgol gyda chyfran uchel o ddisgyblion yn caffael Hyfedredd mewn Saesneg yn arwain at gyswllt negyddol gyda chyflawniad ar gyfer disgyblion eraill yn yr ysgol, o ran cyflawniad cyffredinol disgyblion neu'n benodol ar gyfer disgyblion gyda Cymraeg/Saesneg fel iaith gyntaf.

Mewn cyferbyniad, roedd y gyfran o ddisgyblion mewn ysgol yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gysylltiedig gyda phob canlyniad cyflawniad. Roedd cynnwys hyn mewn modelau yn esbonio 6%-11% o amrywiad atodol ar y lefel ysgol oedd yn arwyddocaol iawn. Roedd bod mewn ysgolion gyda'r tri cwintel uchaf o gyfrannau ysgol gyda hawl i brydau ysgol am ddim yn gysylltiedig gyda chyflawniad is, hyd yn oed wedi mesurau rheoli ar gyfer hawl unigol i brydau ysgol am ddim. Maint yr effaith oedd 0.20 lefel, neu tua 5 mis Cwricwlwm Cenedlaethol⁸, o gymharu â bod mewn ysgol amddifadedd isel. Mae hyn wedi bod yn hysbys ers peth amser (e.e. gweler Strand, 1997; 1999) ond ni aethpwyd ar drywydd y goblygiadau ar gyfer cyllid amddifadedd seiliedig ar ddisgyblion, fel y premiwm disgybl. Efallai na fydd polisïau sy'n dyrannu cyllid yn gyfangwbl/ seiliedig/ yn llwyr ar sail sefydlog fesul disgybl, waeth beth yw'r nifer o ddisgyblion o'r fath yn mynychu ysgol, yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith amddifadedd crynodedig mewn ysgol.

PIE yn y cyfnod pontio o ysgol gynradd i uwchradd

Dangosodd dadansoddiad disgrifiadol o lefelau PIE disgyblion yn y pontio o ysgol gynradd i uwchradd (Bl6 i Bl7) bod yr ysgol uwchradd yn ailasesu. Yn wir, roedd 70% o ysgolion uwchradd wedi ailddosbarthu o leiaf 5% o'r disgyblion SIY wrth dderbyn. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dal ar yr un lefel o PIE, gyda chyfran lai yn symud i un lefel PIE uwch ar gyfer Bl7 nag y rhoddwyd iddynt yn ystod Bl6. Un casgliad nodedig oedd bod disgyblion a aseswyd i fod yn Rhugl yn Bl6 yn llawer mwy tebygol nag eraill i beidio cael eu hasesu i fod ag SIY erbyn Bl7, gyda 24% o ddisgyblion SIY Rhugl wedi eu hailddosbarthu fel Cymraeg/Saesneg iaith gyntaf o gymharu â 4% o ddisgyblion ar Lefelau A neu B. Efallai bod hyn yn benderfyniad bwriadol ar ran yr ysgol uwchradd os nad oedd y disgyblion hyn yn cael eu hystyried i fod ag anghenion cefnogaeth ieithyddol bellach, a gallai fod yn atebol am y lleihad cyffredinol rhwng Bl6 a Bl7 yn y ganran o ddisgyblion a gofnodwyd fel SIY (o 6.9% i 6.2%).

8. Cofnodir Asesiad Athro yng Nghymru yn y lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol. Dyfarnir y rhain gyda'r disgwyliad mai'r lefel nodweddiadol yn 7 oed yw lefel 2, yn 9 oed lefel 3, yn 11 oed lefel 4 ac yn 14 oed lefel 5/6. Felly, mae'r lefel Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynrychioli dwy flynedd (24 mis) o gynnydd.



The Bell 
Foundation



The Bell Foundation
Red Cross Lane
Caergrawnt
CB2 0QU

www.bell-foundation.org.uk